Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ydyn ni'n gofalu am ein gofalwyr?

## Beth rydyn ni wedi ei ddysgu am wasanaethau gofalwyr yng Nghaerffili, Ceredigion, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ydyn ni'n Gofalu am ein Gofalwyr?**'.

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ebost:** cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

**Ffôn:** 0300 790 0203

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Am yr adroddiad yma ........ 5

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod........ 9

Gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru........ 12

Beth rydyn ni'n meddwl........ 14

Geiriau anodd........ 19


# Amdanom ni

Ni ydy **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Rydyn ni'n galw ein hunain yn **OGCC** yn fyr.

Mae gennym ni dair prif swydd i'w gwneud. Dyma nhw:



- Edrych ar gwynion am wasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cael eu galw yn ymchwiliadau.




- Edrych ar gwynion am gynghorwyr sydd efallai wedi torri rheolau o'r enw Cod Ymddygiad.



- Ceisio gwella safonau cynghorau lleol.



Rydyn ni yn annibynnol ac yn deg. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

# Am yr adroddiad yma


Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon
Ombudsman

Ydyn ni'n gofalu am ein gofalwyr?

Beth rydyn ni wedi ei ddysgu am wasanaethau gofalwyr yng Nghaerffili, Ceredigion, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ydyn ni'n Gofalu am ein Gofalwyr?**'.

**Awst 2024**

Dyma adroddiad am ofalwyr sy'n ddi-dâl. Er enghraifft, person sy'n gorfod gofalu am berthynas am oriau lawer oherwydd problem iechyd.


Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn esbonio'r Ddeddf.
Nid yw'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn gyfraith.

Rhaid i chi darllen y Ddeddf er mwyn gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud.

Daeth cyfraith allan yng Nghymru yn 2014 o'r enw [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014](#).




Mae'r ddeddf yma yn dweud bod rhaid i gynghorau lleol wneud **asesiadau o anghenion gofalwyr**. Mae'r rhain yn edrych i weld os ydy gofalwyr angen help.



Mae gan ofalwyr swydd bwysig iawn yn gofalu am bobl. Mae angen i ni wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hawliau.



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod eu iechyd a'u llesiant yn derbyn gofal hefyd.




Fe wnaethon ni edrych ar 4 cyngor lleol yng Nghymru i weld oedden nhw wedi gwneud eu gwaith yn dda i ofalwyr.

Roedden ni yn edrych ar y pethau yma:




- Os oedd cynghorau'n dilyn y gyfraith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.




- Os oedd gofalwyr yn gwybod am eu hawl i gael **asesiad o anghenion gofalwr**.




- Os oedd cynghorau'n rheoli'r asesiadau'n dda.



- Os oedd yr asesiadau'n cael eu gwneud fel y mae'r gyfraith yn dweud.



Y pedwar cyngor lleol (sydd hefyd yn cael eu galw yn awdurdodau lleol) oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot

I ddarganfod os oedd cynghorau wedi gwneud eu gwaith yn dda, fe wnaethon ni gasglu gwybodaeth. Rydyn ni wedi gwneud hyn drwy:



- Casglu gwybodaeth am ofalwyr. **Data** rydyn ni yn galw hyn.



- Fe wnaethon ni edrych ar y gwaith roedd cynghorau wedi'i wneud. Ac fe wnaethon ni holi rhai uwch aelodau o staff o bob cyngor.



- Fe wnaethon ni siarad â sefydliadau sy’n gwneud asesiadau ar ran cynghorau.



- Rydyn ni wedi siarad â’r staff.



- Rydyn ni wedi siarad â gofalwyr.



- Rydyn ni wedi siarad â rhai sefydliadau perthnasol. Er enghraifft, Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Y prif bethau rydyn ni wedi eu darganfod ydy:



- Mae tua 10 o bob 100 o **bobl** yng Nghymru yn ofalwyr. Mae hyn yn 10% o'r holl bobl yng Nghymru.




- Dim ond tua 3 o bob 100 o'r **gofalwyr** yma sydd wedi cael **asesiad o'u hanghenion**.




- Dim ond tua hanner y rhai sydd wedi cael **asesiad o anghenion** oedd â chynllun cymorth.




- Doedd dim llawer o ofalwyr yn gwybod am eu hawliau. Neu eu bod nhw'n gallu cael cefnogaeth eu hunain.



- Weithiau  mae **asesiadau o anghenion gofalwyr** yn cael eu galw yn bethau eraill. Mae hyn wedi drysu gofalwyr.




- Does dim digon o wybodaeth am asesiadau a chymorth.



- Pan fydd asesiadau'n cael eu gwneud, fe fyddan nhw fel arfer yn cael eu gwneud yn dda. Ar wahân i asesiadau rhai gofalwyr ifanc.



- Mae'r ffordd mae asesiadau yn cael eu hysgrifennu a'u cofnodi yn gallu bod yn well.



- Fe ddylai cynghorau fod yn edrych dros eu hasesiadau gorffenedig ar gyfer ansawdd mewn rhai meysydd.



- Fe ddylid cynnig **eiriolaeth** i ofalwyr.

> **Eiriolaeth** ydy pan fydd rhywun yn siarad dros rhywun i rannu beth maen nhw'n feddwl.



- Fe ddylai cynghorau a gwasanaethau iechyd gydweithio mwy i gefnogi gofalwyr.

# Gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru




Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld ein canfyddiadau. Maen nhw'n dweud ei bod hi'n bwysig iawn bod gofalwyr yn cael asesiad os ydyn nhw angen un.



Mae grŵp wedi'i sefydlu fel rhan o **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl**.



Dyma grŵp sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl. Mae'n cynnwys gofalwyr, staff a sefydliadau o bob rhan o Gymru.




Mae'r grŵp wedi rhoi arolygon i bob cyngor lleol. Maen nhw'n edrych ar **asesiadau o anghenion gofalwyr** a gwasanaethau cynghori.



Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith arall i ddysgu am brofiadau gofalwyr o wasanaethau.



Maen nhw hefyd yn gwneud llawer o waith i wella’r gefnogaeth y mae gofalwyr yn ei gael. Er enghraifft, fersiwn hawdd ei ddeall o’r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

# Beth rydyn ni'n meddwl



Ar y cyfan, roedd pob cyngor yn gwneud rhai pethau'n dda ac yn gallu gwneud rhai gwelliannau.



Roedd gan ofalwyr o bob ardal bethau da i'w dweud am y gwasanaethau oedd ganddyn nhw.




Fel arfer, mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu gwneud yn dda. Mae gwelliannau yn gallu cael eu gwneud mewn rhai **asesiadau ar gyfer gofalwyr** ifanc.



Rydyn ni yn credu bod rhai gwelliannau eraill yn gallu cael eu gwneud. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod y person sy'n derbyn gofal yn cymryd rhan. Hefyd, gwneud yn siŵr bod y gofalwr yn hapus gyda'r asesiad.




Mae angen i gynghorau lleol wneud yn siŵr bod gofalwyr yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael asesiad a chymorth.




Mae angen gwell gwybodaeth i ofalwyr am asesiadau. A beth mae'r gwasanaethau yn ei gynnig.



Mae hyn yn gallu cael ei roi fel taflen ffeithiau. Fe ddylai hefyd gael ei gynnig yn hawdd ei ddeall.



Mae'n bwysig iawn bod gweithwyr cymdeithasol yn cydnabod gofalwyr ac yn cynnig asesiadau a chymorth iddyn nhw. Fe ddylai staff sy'n gweithio mewn swyddi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wneud yr un peth.



Mae angen mwy o hyfforddiant ar lawer o staff am ofalwyr a'u hawliau.



Mae angen iddo fod yn glir i ofalwyr beth ydy asesiad o anghenion gofalwyr. Weithiau maen nhw'n cael eu galw'n enwau gwahanol.




Fe ddylai'r holl wybodaeth sydd yn cael ei rhoi i ofalwyr hefyd fod yn glir. A'r broses o'u cefnogi.



Fe ddylid gwneud mwy i wneud yn siŵr bod staff eraill y cyngor yn gwybod am faterion gofalwyr a'u hawliau. Er enghraifft, timau tai.



Weithiau mae sefydliadau eraill yn gwneud **asesiadau o anghenion gofalwyr** ar ran y cyngor. Ond mae'n bwysig bod y cyngor yn edrych ar ansawdd eu gwaith.



Mae angen i bob cyngor lleol wneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael gwybod am **eiriolaeth**.



Mae angen cofnodi'r holl wybodaeth am ofalwyr yn well hefyd. Ac unrhyw gyngor a chefnogaeth y maen nhw yn eu cynnig.




Fe ddylai pob cyngor wneud cynllun am weithio gyda gwasanaethau iechyd.




Fe ddylai cynghorau wneud yn siŵr bod **taliadau uniongyrchol** yn gweithio'n dda i ofalwyr os ydyn nhw yn eu defnyddio.

**Taliadau uniongyrchol** ydy pan fydd pobl sydd angen gofal neu gymorth yn derbyn yr arian eu hunain. Yna maen nhw yn dewis pa wasanaethau  maen nhw eu heisiau.




Roedd pobl fel arfer yn cael eu cefnogi yn yr iaith maen nhw'n ei dewis.


Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon
Ombudsman

Ydyn ni'n gofalu am ein gofalwyr?

Beth rydyn ni wedi ei ddysgu am wasanaethau gofalwyr yng Nghaerffili, Ceredigion, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ydyn ni'n Gofalu am ein Gofalwyr?**'.

**Awst 2024**


Fe ddylai pob cyngor yng Nghymru edrych ar yr adroddiad yma a rhoi'r camau gweithredu ar waith. Er nad oes rhaid iddyn nhw.



Mae croeso i bob cyngor gysylltu â ni i roi gwybod i ni beth maen nhw wedi'i wneud.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda'r 4 cyngor i weld pa gamau sydd wedi'u cymryd.




Mae'r 4 cyngor wedi cytuno i roi'r camau gweithredu ar waith o fewn 6 mis i'r adroddiad yma ddod allan.

# Geiriau anodd

### Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan fydd rhywun yn siarad dros rhywun i rannu beth maen nhw'n feddwl.

### Taliadau uniongyrchol

Taliadau Uniongyrchol ydy pan fydd pobl sydd angen gofal neu gymorth yn derbyn yr arian eu hunain. Yna maen nhw yn dewis pa wasanaethau maen nhw eu heisiau.